Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# PWYLLGOR CYNLLUNIO

**2.00 PM - DYDD MAWRTH, 15 IONAWR, 2019**

**YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 1/2 – CANOLFAN DDINESIG, PORT TALBOT**

## Rhan 1

1. Datganiadau o fudd

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol *(Tudalennau 5 - 8)*

3. Gwneud cais am ymweliad(au) safle gan y ceisiadau a gyflwynwyd

**Adroddiadau gan Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd**

**Adran A - Materion i'w Penderfynu**

**Ceisiadau Cynllunio wedi'u hargymell ar gyfer Cymeradwyaeth**

4. Rhif y Cais: P2018/0860 *(Tudalennau 9 - 30)*
Cadw mangre fel caffi/bwyty/bar (Dosbarth Defnydd A3) gyda llety i dwristiaid ar y llawr cyntaf (Dosbarth Defnydd C1); cadw ac addasu adeilad storio/ystafell arlwyo ar wahân gyda tho ar oleddf yn lle ardal eistedd a grisiau mynediad, yn ogystal â chreu ardal barcio benodol ar gyfer 6 cherbyd ar dir i'r gogledd-ddwyrain o westy The Angel ac un gilfach barcio i bobl anabl ar safle'r hen Ganolfan Croeso, Heol Pontneddfechan, Glyn-nedd, Castell-nedd SA11 5NR

**Adran B - Materion Er Gwybodaeth**

5. Apeliadau a dderbyniwyd - 27.11.18 - 07.01.19
*(Tudalennau 31 - 32)*

6. Apeliadau y penderfynwyd arnynt - 27.11.18 - 07.01.19
*(Tudalennau 33 - 34)*

7. Penderfyniadau Dirprwyedig 27.11.18 - 07.01.19
*(Tudalennau 35 - 50)*

8. Eitemau brys
Unrhyw eitemau brys yn ôl disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B(4) (b) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**S.Phillips**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Mercher, 9 Ionawr 2019**

**Aelodaeth Pwyllgor:**

**Cadeirydd:** **S.Paddison**

**Is-Gadeirydd:** **H.N.James**

**Aelodau:** Councillors A.R.Aubrey, S.Bamsey, R.Davies, W.F.Griffiths, S.K.Hunt, C.J.Jones, S.Pursey, A.Wingrave, A.McGrath, R.Mizen a/ac L.Jones

**Aelod Cabinet:** Councillor A.Wingrave

**Gwneud cais i siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio**

Mae gan y cyhoedd hawl i fynd i'r cyfarfod ac annerch y pwyllgor yn unol â gweithdrefn gytunedig y cyngor sydd ar gael yn www.npt.gov.uk/planning.

Os hoffech siarad yn y Pwyllgor Cynllunio ynghylch cais yr adroddwyd amdano i'r pwyllgor hwn, mae'n rhaid i chi:

- Gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifenedig, naill ai drwy'r post yn: Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ, neu'n ddelfrydol drwy e-bostio: democratic.services@npt.gov.uk.
- Sicrhau eich bod yn gwneud eich cais i siarad ddau ddiwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf (erbyn 2pm ar y dydd Gwener blaenorol os yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth).
- Nodi'n glir rif yr eitem neu'r cais rydych am siarad amdani/o a chadarnhewch a ydych yn cefnogi'r cais neu'n ei wrthwynebu.
- Rhoi eich enw a'ch cyfeiriad (a fydd ar gael i'r cyhoedd oni bai fod rhesymau penodol dros gyfrinachedd).

Sylwer, dim ond un person sy'n gallu siarad ar ran pob 'categori' ar gyfer pob cais h.y. y gwrthwynebydd, y cefnogwr, yr ymgeisydd/asiant, y Cyngor Cymuned/Tref. Ceir manylion llawn yng ngweithdrefn gytunedig y cyngor.

Yn ogystal, os yw gwrthwynebydd yn dymuno siarad, hysbysir yr ymgeisydd/asiant gan y cyngor.

Os ydych yn dymuno trafod unrhyw agwedd ar siarad cyhoeddus, ffoniwch dîm y Gwasanaethau Democrataidd ar 01639 763313.

**Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio yr adroddir amdanynt i'r pwyllgor**

Os ydych yn dymuno cyflwyno sylwadau ar gais a gyflwynir i'r Pwyllgor Cynllunio hwn, sylwer bod rhaid i'r Adran Gynllunio dderbyn y rhain erbyn 2.00pm ar y dydd Gwener cyn cyfarfod y pwyllgor fan bellaf (yn seiliedig ar y cyfarfod dydd Mawrth arferol). Os nad yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth, dylid eu derbyn erbyn 2.00pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn y Pwyllgor Cynllunio fan bellaf.

Caiff sylwadau a dderbynnir yn unol â phrotocol y cyngor eu crynhoi a, lle y bo'n briodol, gwneir sylwadau arnynt ar ffurf Taflen Ddiwygio, a ddosberthir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio drwy e-bost ar y noson cyn cyfarfod y pwyllgor, a'i chyflwyno ar ffurf copi caled yn y cyfarfod.